PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

Adroddiad Blynyddol o dan Reol Sefydlog 9.9

Ebrill 2001 hyd at Fawrth 2002

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ynghylch eu cynnydd wrth gyflawni eu blaenraglen waith. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgareddau'r Pwyllgor o Ebrill 2001 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 2002.

Aelodaeth y pwyllgor

2. Cadeiriwyd y Pwyllgor am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan Christine Gwyther a gymerodd yr awenau ar ôl ymddiswyddiad Val Feld oherwydd afiechyd. Yr aelodau eraill ar hyn o bryd yw: Alun Cairns, Chris Chapman, Andrew Davies (y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd), David Davies, Ron Davies, Mike German, Alison Halford, Elin Jones, Dafydd Wigley a Phil Williams.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

3. Seilir cylch gorchwyl y Pwyllgor ar bortffolio y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Mewnfuddsoddi, hyrwyddo cwmnïau brodorol a datblygu rhanbarthol.
- Materion economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys cronfeydd strwythurol.
- Polisi diwydiannol a chymorth busnes, gan gynnwys materion cyflogaeth a arweinir gan y galw (isafswm cyflog, amseroedd gweithio, etc).
- Arloesi ac ynni.
- Twristiaeth

- Datblygu ac adfywio trefol.
- E-Gweinidog gyda chyfrifoldeb cydgysylltu strategol dros TGC.

4. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Bwrdd Croeso Cymru (WTB).

5. Nodir cyfrifoldebau pwyllgorau pwnc mewn Rheolau Sefydlog – ceir copi yn Atodiad A.

Blaenoriaethau'r Pwyllgor.

6. Prif nod y Pwyllgor, a nodwyd yn ei flaenraglen waith ar gyfer 2001-2002, yw "helpu i greu economi flaengar, ddeinamig, a mwy amrywiol a fydd yn rhoi cyfle i bawb fynnu". Ei flaenoriaethau o fewn hyn fu helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisïau newydd a chraffu ar bolisïau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno'r atebion gorau posibl i bobl yng Nghymru.

7. Blaenoriaeth arall y Pwyllgor eleni fu ei Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru. Mae wedi neilltuo cryn dipyn o amser ac ymdrech yn casglu tystiolaeth o'r adolygiad gan ystod eang o gyrff a sefydliadau.

Cyfarfodydd a gynhaliwyd

8. Erbyn diwedd tymor y Gwanwyn 2002 yr oedd y Pwyllgor wedi cynnal 18 o gyfarfodydd ffurfiol gan gynnwys ei gyfarfod ffurfiol cyntaf y tu allan i Gaerdydd. Cynhaliwyd hwn yn Nhachwedd yn Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn Wrecsam.

9. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi cynnal 8 o gyfarfodydd/sesiynau briffio anffurfiol gan gynnwys ymweliadau â nifer o gwmnïau mewn cysylltiad â'i Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru.

Dull gweithredu

10. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor gyflym y mae'r economi'n symud ac mae mynd ar drywydd pynciau llosg y dydd a materion sy'n datblygu ymhlith ei flaenoriaethau. Er mwyn gwneud hynny mae wedi ceisio trefnu ei agenda yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i materion brys wrth iddynt godi – yn enwedig mewn perthynas â'r diswyddiadau yn Corus ac effaith clwy'r traed a'r genau ar economi Cymru.

11. Gan gydnabod portffolio eang datblygu economaidd mae'r Pwyllgor wedi cydweithio yn agos â phwyllgorau pwnc eraill ar faterion o gyd-ddiddordeb. Yr oedd y rhain yn cynnwys sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes er mwyn craffu ar becyn cymorth y Gweinidogion i liniaru effeithiau'r swyddi a gollwyd yn safleoedd Corus yng Nghymru.

12. Ymunodd Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd hefyd â'r trafodaethau yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig er mwyn trafod y Cynllun Adfer Gwledig yn sgil clwy'r traed a'r genau. Mewn cysylltiad â'r Adolygiad o Bolisi Ynni,

mae'r Pwyllgor wedi ymestyn gwahoddiad agored i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth fynychu cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Datbglygu Economaidd.

Gwaith a Chyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf

Rheol Sefydlog 9.7(i) – cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru

13. Mae'r Pwyllgor wedi neilltuo cryn amser eleni i'w Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru ac mae wedi penodi'r Athro Jake Chapman yn ymgynghorydd arbenigol arno yn Nhachwedd 2001. Bu'r Pwyllgor yn pryderu na ddylai cwmpas y Adolygiad, a'r amser y mae ei angen er mwyn ei gwblhau, achosi oedi mewn penderfyniadau ar fuddsoddi a datblygiadau o fewn y sector ynni ac felly fe benderfynodd fynd i'r afael â'r mater mewn camau. Cwblhaodd ei adroddiad cyntaf, ar ynni adnewyddadwy ar ddiwedd y flwyddyn a bwriedir i hwn gael ei gyhoeddi, at ddibenion ymgynghori, ym mis Ebrill. Mae gwaith ar gam nesaf y Adolygiad, sef effeithlonrwydd ynni ar y gweill. Bydd cyfnodau olynol yn mynd i'r afael â gwres a phwer cyfunol ac ysgogwyr economaidd.

Adolygiad o Gymorth a Datblygu Busnes

14. Rhoddwyd Adroddiad y Pwyllgor ar yr Adolygiad o Gymorth a Datblygu Busnes allan at ddibenion ymgynghori gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn dilyn ei ddadl yn y cyfarfod llawn ym mis Chwefror 2001. Cyflwynwyd crynodeb cychwynnol o'r ymatebion i'r Pwyllgor ym Mehefin 2001 ond ar y pryd yr oedd nifer o gyrff allweddol wedi nodi na allent gyflwyno sylwadau terfynol ond yng nghyd-destun ymgynghoriad NEDs, a oedd heb ddod i ben bryd hynny. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Datbglygu Economaidd ym mis Hydref. Croesawodd y Pwyllgor sêl bendith y Gweinidog i'r mwyafrif o'u hargymhellion ond siom enbyd iddynt oedd y penderfyniad i beidio â sefydlu bwrdd polisi economaidd. Yr oedd yr argymhelliad ar gyfer y bwrdd hwn wedi cael ei chefnogi ar draws y pleidiau, a'i gefnogi yn unfrydol i raddau helaeth gan y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn parhau i gymryd diddordeb gweithgar mewn datblygu cymorth i fusnesau yng Nghymru.

Cymru'n Ennill

15. Ystyriodd y Pwyllgor ymhellach Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddrafft y Gweinidog yn dilyn ei ymgynghoriad arni. Ers hynny cyhoeddwyd hon fel Cymru'n Ennill. Yr oedd llawer o aelodau'n teimlo bod yr adroddiad yn annigonol am fod ynddo ddiffyg manylion ynghylch polisïau, adnoddau a thargedau realistig. Gan fod y ddogfen hon wrth graidd strategaeth economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i fonitro perfformiad yn erbyn y strategaeth, ac i gynghori'r Gweinidog yng ngoleuni ei gasgliadau.

16. Yn ogystal â'i adolygiad ei hyn mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at adolygiadau polisi Pwyllgorau pwnc eraill:

- Ym mis Gorffennaf 2001 cyfrannodd at adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Addysg Uwch yng Nghymru yn benodol ynghylch y cysylltiadau hanfodol sy'n gorfod bodoli rhwng addysg uwch a datblygu economaidd.

- Mae wedi ystyried a chynnig cyngor ar effeithiau datblygu economaidd ar yr iaith Gymraeg, mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r Gymraeg sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Diwylliant.

<u>Rheol Sefydlog 9.7(ii)</u> – cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu.

<u>Cronfeydd Strwythurol Ewrop</u>

17. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi dal i gymryd diddordeb brwd mewn datblygu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ac mae wedi parhau i arolygu'r cynnydd gyda'r cronfeydd. Mae'n trafod y rhain yn rheolaidd â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn ogystal â chael adroddiadau chwarterol rheolaidd oddi wrth Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac oddi wrth Gadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni (PMC).

18. Mae'r Pwyllgor yn pryderu hefyd am ddyfodol y cronfeydd hyn yn sgil ehangiad yr UE ac mae wedi cael trafodaethau ar y mater hwn. Mynychodd aelodau'r Pwyllgor gynhadledd ym mis Mai yn y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel er mwyn trafod Adroddiad Cydlyniad y GE.

<u>Archwilio'r Gweinidog yn rheolaidd</u>

19. Mae'r Pwyllgor wedi parhau ym mhob cyfarfod rheolaidd i archwilio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Ar gyfer pob cyfarfod mae wedi darparu adroddiad ysgrifenedig yn rhoi manylion y datblygiadau ddiweddaraf ac wedi ymateb i'r materion a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Hefyd mae wedi rhoi diweddariad ar lafar ym mhob cyfarfod yn cynnwys newyddion mwy diweddar. Mae trafodaethau ar yr adroddiadau hyn wedi ffurfio rhan fawr o'r mwyafrif o gyfarfodydd.

20. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau dadansoddol rheolaidd ar yr economi ar ffurf Adroddiad Economaidd Chwarterol Cymru a'r Bwletin Ystadegol Chwarterol. Mae hefyd yn cael adroddiad chwarterol ar weithredu cynllun Cymorth Dewisol Rhanbarthol.

21. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygu Ystadegau economaidd ac mae o'r farn ei bod yn hanfodol i'r Llywodraeth feddu ar wybodaeth gadarn i seilio monitro a chynllunio economaidd arni.

<u>Rheol Sefydlog 9.7(iii)</u> - cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat;

<u>Awdurdod Datblygu Cymru.</u>

22. Mae'r Pwyllgor yn cydweithio'n agos ag Awdurdod Datblygu Cymru. Yn yr haf trafododd â'r Prif Weithredwr gynllun corfforaethol drafft yr Awdurdod ar gyfer 2002-3 i 2004-5 a'i berfformiad alldro ar gyfer 2000-2001. Yn yr Hydref trafododd adolygiad hanner blwyddyn yr Awdurdod â'r Prif Weithredwr. Yn fwy diweddar ystyriodd y Pwyllgor lythyr cylch gorchwyl y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'r WDA ar gyfer 2002-3 ac mae wedi cael cynllun busnes y Awdurdod ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hefyd wedi ystyried rôl y WDA wrth weithredu'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad y Pwyllgor o Gymorth a Datblygu Busnes.

<u>Bwrdd Croeso Cymru</u>

23. Yn yr Hydref trafododd y Pwyllgor â Chadeirydd Bwrdd Croeso Cymru a'i Brif Weithredwr, y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2002-3 i 2004-5 ac yn y Gwanwyn llythyr cylch gorchwyl y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar gyfer y Bwrdd ar gyfer 2002-3. Bu iddo ystyried a chynghori hefyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad pum mlynedd o Fwrdd Croeso Cymru ac fe fydd yn ystyried adroddiadau drafft o hyn yn y dyfodol agos. Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael briffio anffurfiol oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru ar wahanol ddatblygiadau.

<u>Bae Caerdydd</u>

24. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y trefniadau ar gyfer datblygu Bae Caerdydd a'r morglawdd yn dilyn dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Fe wahoddodd Grosvenor Waterside i gyflwyno papur yn rhoi persbectif masnachol ar ddatblygu Bae Caerdydd ac ym mis Ionawr ystyriodd y cynllun busnes hir-ddisgwyliedig ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd a throsglwyddo sylwadau i'r Arglwydd Faer. Mae'r Pwyllgor i ddal i fod yn awyddus i'r buddsoddiad hwn ddod â manteision i Gymru gyfan ac mae'n teimlo ei bod yn bwysig cadw llygad barcut arno.

<u>Rheol Sefydlog 9.8 – cyfrifoldebau eraill</u>

<u>Y Gyllideb Datblygu Economaidd</u>

25. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhan flaenllaw yn y broses o bennu blaenoriaethau cyllideb datblygu economaidd y Cynulliad. Yn gyntaf archwiliodd berfformiad gwariant yn y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd diweddar cyn ystyried a chynghori ar gynigion y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn yr Hydref ystyriodd y rhan o gyllideb fanwl y Cabinet sy'n ymwneud â datblygu economaidd. Mae hefyd yn cael adroddiadau oddi wrth y Gweinidog pan wneir newidiadau yn ystod y flwyddyn.

<u>Penodiadau cyhoeddus</u>

26. Yr oedd aelodau'r Pwyllgor yn rhan o'r broses o benodi Cadeirydd newydd Awdurdod Datblygu Cymru ac aelodau i fyrddau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

Blaenraglen waith

27. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer Mai 2002 tan etholiadau nesaf y Cynulliad. Mewn perthynas â'i swyddogaethau craffu, bydd yn parhau i gadw golwg agos ar swyddogaethau'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a gorolwg agos ar ddatblygu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol a dulliau gweithredu Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

28. O ran datblygu polisi mae'n bwriadu parhau â'r gwaith y mae wedi dechrau arno yn y flwyddyn ddiwethaf. Un o'r blaenoriaethau penodol fydd casgliad yr Adolygiad o Bolisi Ynni.

Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

Blaenraglen Waith

Mai 2002 hyd Mai 2003

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, y gwelir rhan ohonynt yn Atodiad A.

Dyletswyddau'r Pwyllgor

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Buddsoddi mewnol a masnach, hyrwyddo cwmnïau brodorol a datblygu rhanbarthol;
- Materion economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys y cronfeydd strwythurol;
- Arloesi, ynni a datblygiadau TGCh yn y sector busnes;
- Polisïau diwydiannol a chymorth busnes, gan gynnwys materion cyflogaeth o ochr y galw (isafswm cyflog, amseroedd gweithio, etc);
- Twristiaeth.

Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

3. Nod y Pwyllgor yw cynorthwyo i greu economi flaengar, dynamig a mwy amrywiol lle caiff pawb gyfle i ffynnu. Yn benodol, bydd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- adeiladu economi mwy datblygedig, cystadleuol a mwy amrywiol gyda sector mentrau bach a chanolig dynamig;

- cynyddu nifer ac ansawdd y swyddi a lleihau'r nifer sy'n anweithredol yn economaidd, yn enwedig yn yr ardaloedd llai llewyrchus;

- codi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a'i sefydlu fel man o'r radd flaenaf i fyw, astudio, ymweld â hi a chyflawni busnes ynddi;

- ysgogi datblygiad sy'n diogelu adnoddau naturiol ac yn parchu'r amgylchedd;

- buddsoddi mwy yn ein pobl ifanc a dysgu gydol oes fel bod pawb, a'r ieuenctid yn enwedig, yn ennill yr amrediad o wybodaeth a sgiliau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni eu potensial a ffynnu yn yr economi newydd;

- hybu dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd ac entreupreneuriaeth;

- gwella hyfforddiant, cynorthwyo busnesau bach i dyfu, hybu sefydlogrwydd ac annog technolegau newydd;

- sicrhau ein bod yn ymelwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd datblygu sy'n agored i'r economi Gymreig yn dilyn derbyn statws Amcan Un;

- parhau i chwilio am fewn-fuddsoddiad o ansawdd uchel a chryfhau'r gefnogaeth i fasnach tramor.

BLAENRAGLEN WAITH

4. Mae gwaith y Pwyllgor yn disgyn yn fras i 2 gategori – archwilio gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a chyfrannu at ddatblygu polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy adolygiadau polisi a dilyn, ac ymateb i'r materion wrth iddynt godi. Yn ymarferol, mae eitemau'r Agenda yn aml yn cynnwys agweddau o'r ddau yma.

5. Ar y cyd â hyn mae gan y Pwyllgor amrediad o fusnes 'parhaus':
- derbyn ac ystyried adroddiadau rheolaidd Ysgrifennydd y Cynulliad i'r Pwyllgor;
- adolygiadau blynyddol o berfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a chynghori ynghylch eu datblygiad strategol;
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad;
- ystyried deddfwriaeth eilaidd fel y bo'n briodol.

A) Craffu

5. Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn trafod adroddiadau ar y materion cyfredol a phwysig gan Ysgrifennydd y Cynulliad ym mhob un o'i gyfarfodydd.

6. Bydd yn defnyddio'r achlysuron hyn i fynd i'r afael ag archwiliadau parhaus o'r Gweinidog, ei bolisïau a'r modd y'u gweithredir.

7. Bydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Monitro'r Rhaglen, ynghylch cynnydd y gwahanol raglenni cefnogaeth Ewropeaidd a bydd yn cadw llygad barcud ar berfformiad y rhaglenni hynny.
8. Bydd yn ystyried perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ac ystyried eu blaenraglenni gwaith. Bydd yn parhau i gadw trosolwg o'r datblygiadau yn Mae Caerdydd a gweithredu cynllun busnes Awdurdod Harbwr newydd Caerdydd.
9. Bydd yn dadansoddi'r camau a gymerir i daro'r targedau a ddisgrifir yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol pan fydd yn barod.

B) Datblygu Polisi

10. Bydd cyfraniad mwyaf y Pwyllgor i ddatblygiad polisi drwy ei Adolygiad o'r Polisi Ynni yng Nghymru. Bydd hwn yn cael ei gwblhau fesul cam gan gychwyn gydag Ynni Adnewyddadwy ac yna Effeithlonrwydd Ynni. Cynigia wedyn i edrych ar Bŵer a Gwres cyfun ac eraill.
11. Roedd y flaenraglen waith flaenorol hefyd yn nodi'r meysydd canlynol fel rhai blaenllaw i'w hystyried: Adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r graddau y mae'n effeithio ar y sector busnes – a strategaeth dwristiaeth Cymru. Bydd y rhain yn cael eu cadw o dan ystyriaeth fel pynciau i'w hastudio yn y dyfodol.
12. Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i gadw trosolwg o, a chynghori, yn ôl y gofyn, ar faterion pellach sy'n codi mewn perthynas â'r argymhellion yn Adolygiad y Pwyllgor o Ddatblygu a Chefnogi Busnes
13. Bydd y Pwyllgor yn cynghori ymhellach ar ddatblygiad y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol wrth iddi gael ei datblygu.
14. Bydd yn cynnig cyngor ar flaen gynlluniau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a llythyrau arweiniad strategol y Gweinidog i'r cyrff hyn.
15. Bydd yn cadw trosolwg o hynt datblygiad polisïau'r UE ac yn enwedig ehangu a chydlynu.
16. Bydd yn cadw trosolwg ac yn cynghori ar ddatblygiadau yn economi Cymru – gan ymateb i faterion brys ac arwyddocaol fel bo angen.
17. Bydd yn cynghori ynghylch materion cyllidebol, ariannol, deddfwriaethol, penodiadau a materion eraill fel y bo'r angen ac fel sy'n ofynnol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

RHAGLEN FANWL

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi rhaglen fanwl ar gyfer pob tymor ar yr adegau penodedig a glustnodwyd i'r Pwyllgorau yng Nghynllun Rheol Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau.

Bydd yn ymdrechu i geisio cynnal o leiaf ddau gyfarfod ffurfiol y flwyddyn y tu allan i Gaerdydd.

ATODIAD A

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGORAU PWNC

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn amlinellu cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc.

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc yn

(i) cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad drostynt;

(ii) adolygu'r gwariant a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r broses o'u rhoi ar waith; ac

(iii) adolygu'r modd y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn y meysydd hynny.

"9.8 O fewn eu meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd yn

(i) cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;

(ii) darparu cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;

(iii) cyflawni ei swyddogaeth o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);

(iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennwyd ar ei gyfer o dan God Ymarfer y Drefn Penodiadau Cyhoeddus a wnaed gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac

(v) ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad o fewn ei feysydd".

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith dreigl am gyfnodau o 12 mis o leiaf.